SUT I ROI TIWB NEWYDD YM MOWLD EICH CYMORTH CLYW

# Dilynwch y cyfarwyddiadau hyn:




**1.**

Tynnwch yr hen diwb allan o'r mowld clust. Peidiwch â chael gwared ar yr hen diwb. Bydd angen hwn arnoch chi'n ddiweddarach.



**2.**

Torrwch 5cm (2 fodfedd) oddi ar ben darn o diwb sydd wedi ei blygu yn barod. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n torri hwn ar ogwydd.




**3.**

Dylai pen y tiwb fod yn bigfain.




**4.**

Mae angen gwthio'r pen pigfain i mewn i'r mowld clust.




**5.**

Gwthiwch y tiwb drwy'r mowld clust.



**6.**

Dylai'r rhan bigfain gyfan fod wedi dod trwy'r ochr arall.



**7.**

Tynnwch y tiwb nes bod y darn sydd wedi ei blygu'n cyrraedd y mowld clust.



**8.**

Torrwch y tiwb pigfain mor agos â phosib at y mowld clust. Gallai unrhyw ran o'r tiwb sy'n ymestyn allan rwbio eich clust a'i gwneud hi'n boenus.



**9.**

Rhowch yr hen diwb rydych chi wedi ei gadw yn erbyn y tiwb sydd newydd fynd trwy'r mowld clust.



**10.**

Torrwch ben y tiwb yr un hyd â'r tiwb arall.



**11.**

Gwthiwch ben y tiwb i mewn i'r trwyn plastig ar eich cymorth clyw.



**12.**

Sicrhewch ei fod yn plygu i’r cyfeiriad cywir, fel yn y llun.

FEL ARALL, GALLWCH CHI WYLIO FIDEO BYR AR-LEIN AR:

https://c2hearonline.com/video/you_tube/retubing.mp4